

Pwyllgor Enwi a Chymeradwyo Cymru: Cofnodion

15 Rhagfyr 2016, 11:30-13:00

Yn bresennol

Graham Craig (GC)	Cadeirydd, Llywodraeth Cymru
Aeddan Davies (AD)	Llywodraeth Cymru
Kathryn Jenkins (KJ)	Llywodraeth Cymru
Del Morgan (DM)	Un Llais Cymru, yn cynrychioli Cyngorau Tref a Chymuned
Ben Chapman (BC)	JSL
Stephen Kelly (SK)	JSL

Ymddiheuriadau

Henry Matthews JSL

Newidiadau Polisi

1. Atgoffodd GC y Pwyllgor ei fod wedi gwneud penderfyniad drwy e-bost ym mis Medi i ddileu'r gofyniad ar Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol i ddefnyddio'r ôl-ddodiad –apc neu –npa. Roedd hyn mewn ymateb i gais a wnaed gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ar ran tri Pharc Cenedlaethol Cymru. Yn dilyn hynny, roedd Cyngor Tref Caernarfon wedi codi cwestiwn ynghylch y gofyniad a oedd arno i ddefnyddio'r ôl-ddodiad –ct neu –tc, yn enwedig o ystyried nad yw'r ôl-ddodiad –ct yn cydweddu â chystrawen y Gymraeg. Ym marn y Pwyllgor, pe bai'n caniatáu i gynghorau tref a chymuned ddefnyddio'r un fformat ag awdurdodau unedol, gellid creu problemau yn y dyfodol pe bai llywodraeth leol yn cael ei had-drefnu. Roedd hefyd yn teimlo y byddai'r defnydd o nodau adnabod yn helpu i osgoi unrhyw amryfusedd rhwng awdurdodau unedol a threfi sirol, ee Sir Gaerfyrddin a thref Caerfyrddin. Fodd bynnag, cytunodd y Pwyllgor i ddiwygio'r polisi er mwyn i gynghorau tref a chymuned gael dewis rhwng yr ôl-ddodiad ac enw llawn y cyngor, cyn belled a bod y dewis yr un fath yn y Gymraeg ac yn Saesneg.
2. Dywedodd GC wrth y Pwyllgor fod Swyddfa'r Cabinet wedi cytuno bod cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn cael cadw eu parthau .gov.uk ochr yn ochr ag unrhyw barthau .llyw.cymru neu .gov.wales cyn belled â'u bod yn cyflawni rhyw bwrpas.

Cam gweithredu 1: GC i ddiweddarau'r polisi drwy ddileu'r gofyniad sy'n ymwneud ag ôl-ddodiad Awdurdod Parc Cenedlaethol, a hefyd rhoi'r cyfle i'r cynghorau tref a chymuned ddewis rhwng defnyddio eu henw llawn neu'r ôl-ddodiad.

Cam gweithredu 2: GC i ddiweddarau'r polisi drwy ddileu'r gofyniad i ymadael â phob parth .gov.uk o fewn 3 blynedd ar ôl dewis defnyddio parthau .llyw.cymru neu .gov.wales.

Cydymffurfio â pholisi

3. Roedd GC wedi nodi dau barth nad oeddent yn cydymffurfio â pharagraff 4d o'r polisi. Cynigiodd BC gysylltu â'r sefydliadau nad oeddent wedi cydymffurfio â'r paragraff hwn er

Pwyllgor Enwi a Chymeradwyo Cymru: Cofnodion
15 Rhagfyr 2016

mwyn datrys y mater. Roedd GC yn cydnabod bod yna barthau o eiddo Llywodraeth Cymru hefyd nad oeddent yn cydymffurfio â'r paragraff hwn.

- Roedd GC hefyd wedi nodi nifer o barthau a oedd wedi eu cymeradwyo ond nad oeddent wedi eu ffurfweddu. Dywedodd BC bod hyn oherwydd nad oeddent wedi talu'r ffi eto.

Cam gweithredu 3: GC i anfon y parthau nad ydynt yn cydymffurfio at BC.

Cam gweithredu 4: BC i gysylltu â'r sefydliadau nad ydynt yn cydymffurfio.

Cam gweithredu 5: GC i weithio gyda chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru er mwyn unioni sefyllfa'r parthau o eiddo Llywodraeth Cymru nad ydynt yn cydymffurfio.

Cam gweithredu 6: GC i anfon manylion at BC o ran y parthau sydd wedi eu cymeradwyo gan y Pwyllgor, ond nad ydynt wedi eu ffurfweddu hyd yn hyn.

Cam gweithredu 7: BC i gysylltu â sefydliadau sydd â pharthau nad ydynt wedi eu ffurfweddu er mwyn cael taliadau, a chaniatáu i'r parthau gael eu ffurfweddu.

Hyrwyddo

- Roedd GC wedi gwneud rhywfaint o ymchwil i wefannau cynghorau tref a chymuned. O'r 740 o gynghorau, roedd wedi dod o hyd i 617 o wefannau (83%). O'r rhain, roedd dros eu hanner ar barthau .co.uk neu .org.uk. Trafododd y Pwyllgor sut y gellid annog y cynghorau hyn i symud i .llyw.cymru a .gov.wales. Awgrymwyd y dylai Llywodraeth Cymru wneud rhywfaint o waith ymgysylltu er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r parthau hyn. Cytunodd DM y byddai Un Llais Cymru yn bartner defnyddiol yn hynny o beth, er ei fod yn cydnabod nad oedd pob cyngor tref a chymuned yn aelod o Un Llais Cymru. Pwysleisiodd DM y gallai gohebiaeth gan Lywodraeth Cymru helpu i gryfhau'r neges.
- Atgoffodd GC y Pwyllgor fod y Gweinidog o'r farn bod mabwysiadu'r parthau yn fater i bob corff sector cyhoeddus unigol, a bod rôl Llywodraeth Cymru yn gyfyngedig i'w creu yn ôl y gofyn. Fodd bynnag, yn sgil etholiad y Cynulliad yn gynharach eleni, nid oedd y Gweinidog hwnnw bellach yn y swydd.

Cam gweithredu 8: GC i siarad â chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru (llywodraeth leol) ynghylch codi ymwybyddiaeth o .llyw.cymru a .gov.wales, a gweithio gydag Un Llais Cymru.

Cam gweithredu 9: GC i geisio barn Ysgrifennydd y Cabinet ar y sector cyhoeddus yn mabwysiadu'r parthau ac unrhyw weithgarwch hyrwyddo cysylltiedig.

- Dywedodd GC fod Cyngor Tref Caernarfon wedi cael rhywfaint o anhawster wrth geisio dod o hyd i gofrestrydd i brynu parthau .llyw.cymru a .gov.wales. Dywedodd BC fod pob cofrestrydd a gymeradwyir gan JSL yn cael prynu'r parthau, ond ei fod yn bosibl nad oedd pob un ohonynt wedi diweddarau eu systemau ar gyfer eu derbyn. Nid yw JSL wedi hysbysebu'r parthau i'r cofrestryddion y mae wedi eu cymeradwyo. Trafododd y Pwyllgor y posibilrwydd o gysylltu â Phwyllgor Enwi Gov.scot ynghylch drafftio llythyr ar y cyd i dynnu sylw at y parthau newydd, fel y byddai JSL yn gallu ei anfon at y cofrestryddion y mae wedi eu cymeradwyo.

Cam gweithredu 10: GC i gysylltu â Phwyllgor Enwi Gov.scot ynghylch anfon llythyr ar y cyd at gofrestryddion.

Cam gweithredu 11: GC i ddrafftio llythyr a'i anfon at BC.

Cam gweithredu 12: BC i anfon llythyr at gofrestryddion sydd wedi eu cymeradwyo gan JSL.

Perchnogaeth parthau

8. Roedd GC a BC wedi trafod o'r blaen y mater o lanhau ffeiliau parth .llyw.cymru a .gov.wales drwy greu parthau gwraidd ar gyfer sefydliadau nad oeddent yn rhan o Lywodraeth Cymru. Gan fod Llywodraeth Cymru wedi creu nifer o barthau cyn dod i gytundeb gyda JSL, yn dechnegol mae Llywodraeth Cymru yn berchen ar hyn o bryd ar nifer o barthau sy'n cael eu defnyddio gan sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus.

Cam gweithredu 13: GC i anfon rhestr at BC, gan nodi parthau nad ydynt yn rhan o Lywodraeth Cymru sy'n dod o'r ffeiliau parth, ochr yn ochr â'r manylion cyswllt, dyddiad eu creu, a manylion y cofrestrydd.

Aelodaeth y Pwyllgor

9. Ym mis Awst, roedd GC wedi hysbysebu swydd wag ar gyfer ymuno â'r Pwyllgor i Web Group Wales ar y Knowledge Hub, ond nid oedd neb wedi ymateb. Trafododd y Pwyllgor ba sefydliadau y gellid cysylltu â nhw i ddenu aelod newydd.

Action 14: GC i gysylltu â CLILC ynghylch cael aelod newydd o'r Pwyllgor.

Action 15: KJ i gysylltu â rheolwyr TG/diogelwch awdurdodau lleol ynghylch ymuno â'r Pwyllgor.

Unrhyw fater arall

10. Soniodd GC wrth y Pwyllgor am ymchwiliad Llywodraeth Cymru i gynlluniau awdurdodau lleol ynghylch trawsnewid digidol. Roedd GC wedi cynnwys cwestiynau ynghylch parthau, a bydd yn gweld y casgliadau cychwynnol ym mis Ionawr. Drwy wybod mwy am gynlluniau awdurdodau, dylai'r Pwyllgor allu defnyddio dull gweithredu mwy strategol wrth ymdrin â cheisiadau am barthau sy'n gysylltiedig â chydweithio. Tynnodd DM sylw'r Pwyllgor at araith ynghylch cydweithio rhanbarthol gorfodol a wnaed gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol ym mis Tachwedd. Roedd Ysgrifennydd y Cabinet wedi sôn am ddau fodel ar gyfer cydweithio: un yn ymwneud â datblygu economaidd yn seiliedig ar ddinas-ranbarthau ac un yn ymwneud ag addysg a gwasanaethau cymdeithasol yn seiliedig ar ardaloedd y byrddau iechyd. Disgrifiodd DM gymhlethdodau'r trefniadau cydweithio ym maes llywodraeth leol: mae'r partneriaethau'n amrywio yn ôl daearyddiaeth a phwnc.

11. Dywedodd GC wrth y Pwyllgor fod Llywodraeth Cymru wedi dechrau ar y gwaith o symud y cofnodion parth sy'n weddill o .gov.uk, .cymru.gov.uk a .wales.gov.uk. Rhagfyr 2018 oedd y dyddiad targed arfaethedig.

12. Tynnodd GC sylw'r Pwyllgor at ddiffoddiad diweddar System Enwi Parthau ar GOV.UK. Eglurodd BC beth oedd wedi digwydd a chadarnhaodd nad oedd gan Lywodraeth Cymru ail wasanaeth System Enwi Parthau ar GOV.WALES.

Cam gweithredu 16: GC i siarad gyda KJ a Tony Lantz (Llywodraeth Cymru) i weld a oes angen i Lywodraeth Cymru ychwanegu ail wasanaeth System Enwi Parthau ar GOV.WALES.

Pwyllgor Enwi a Chymeradwyo Cymru: Cofnodion
15 Rhagfyr 2016

13. Gofynnodd GC i BC ddiolch i gydweithwyr JSL ar ran y Pwyllgor am eu gwaith yn creu ac yn rheoli parthau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Camau gweithredu

1. GC i ddiweddarau'r polisi drwy ddileu'r gofyniad sy'n ymwneud ag ôl-ddodiad Awdurdod Parc Cenedlaethol, a hefyd rhoi'r cyfle i'r cynghorau tref a chymuned ddewis rhwng defnyddio eu henw llawn neu'r ôl-ddodiad.
2. GC i ddiweddarau'r polisi drwy ddileu'r gofyniad i ymadael â phob parth .gov.uk o fewn 3 blynedd ar ôl dewis defnyddio parthau .llyw.cymru neu .gov.wales.
3. GC i anfon y parthau nad ydynt yn cydymffurfio at BC.
4. BC i gysylltu â'r sefydliadau nad ydynt yn cydymffurfio.
5. GC i weithio gyda chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru er mwyn unioni sefyllfa'r parthau o eiddo Llywodraeth Cymru nad ydynt yn cydymffurfio.
6. GC i anfon manylion at BC o ran y parthau sydd wedi eu cymeradwyo gan y Pwyllgor, ond nad ydynt wedi eu ffurfweddu hyd yn hyn.
7. BC i gysylltu â sefydliadau sydd â pharthau nad ydynt wedi eu ffurfweddu er mwyn cael taliadau, a chaniatáu i'r parthau gael eu ffurfweddu.
8. GC i siarad â chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru (llywodraeth leol) ynghylch codi ymwybyddiaeth o .llyw.cymru a .gov.wales, a gweithio gydag Un Llais Cymru.
9. GC i geisio barn Ysgrifennydd y Cabinet ar y sector cyhoeddus yn mabwysiadu'r parthau ac unrhyw weithgarwch hyrwyddo cysylltiedig.
10. GC i gysylltu â Phwyllgor Enwi Gov.scot ynghylch anfon llythyr ar y cyd at gofrestryddion.
11. GC i ddrafftio llythyr a'i anfon at BC.
12. BC i anfon llythyr at gofrestryddion sydd wedi eu cymeradwyo gan JSL.
13. GC i anfon rhestr at BC, gan nodi parthau nad ydynt yn rhan o Lywodraeth Cymru sy'n dod o'r ffeiliau parth, ochr yn ochr â'r manylion cyswllt, dyddiad eu creu, a manylion y cofrestrydd.
14. GC i gysylltu â CLILC ynghylch cael aelod newydd o'r Pwyllgor.
15. KJ i gysylltu â rheolwyr TG/diogelwch awdurdodau lleol ynghylch ymuno â'r Pwyllgor.
16. GC i siarad gyda KJ a Tony Lantz (Llywodraeth Cymru) i weld a oes angen i Lywodraeth Cymru ychwanegu ail wasanaeth System Enwi Parthau ar GOV.WALES.